**CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU GRŴP CYNEFINOEDD GLASWELLTIR A GWEUNDIR YR ISELDIR**



**Cyflwyniad**

Mae'r cynllun gweithredu cynefin grŵp hwn yn cynnwys glaswelltir asidaidd sych yr iseldir, gweirgloddiau'r iseldir, porfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd a gweundir yr iseldir.

Mae'r cynefinoedd hyn i gyd yn cyfrannu at yr amrywiaeth cyfoethog o dirweddau a chynefinoedd yn y sir ac maent yn gynefinoedd i rai o'n rhywogaethau pwysicaf, sy'n dirywio. Roeddent i gyd yn llawer mwy cyffredin yn y gorffennol ac maent wedi dirywio'n sylweddol.

Nid oes llawer o **Weundir yr iseldir** yn Sir Gaerfyrddin. Gweundir gwlyb yw'r rhan fwyaf ohono, ac mae'n digwydd yn aml ar y cyd â glaswelltir corsiog. Mae enghreifftiau nodedig yng Nghernydd Carmel, Mynydd Llangyndeyrn a Mynydd Ystyfflau-carn. Mae'r rhan fwyaf o weundir sych yr iseldir yn digwydd ar ymylon yr ucheldiroedd, yn union islaw'r terfyn amgáu; ceir lleiniau bach gwasgaredig hefyd ar hyd y grib grut melinfaen yn ne'r sir. Yma mae'n cynnal adar fel y llinos a chlochdar y cerrig; yr unig flociau eraill tebyg o weundir yr iseldir yw ardaloedd bach ar yr arfordir ar Fynydd Marros a Thrwyn Ragwen, ger Pentywyn.

Diolch i'w gorffennol diwydiannol, mae ardal maes glo Sir Gaerfyrddin wedi cael ei ffermio'n llai dwys a cheir ynddi o hyd grynodiadau o laswelltir niwtral nad yw wedi cael ei wella – **gweirgloddiau yr iseldir**. Ceir enghreifftiau gwasgaredig hefyd mewn mannau eraill yn Sir Gaerfyrddin ar dir isel, er bod hyn fel arfer o fewn lleoliad amaethyddol dwysach.

Mae Sir Gaerfyrddin yn anochel wedi colli llawer iawn o **borfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd** drwy ddwysáu amaethyddol a datblygu, yn enwedig yn ardal Cross Hands. Mae cloddio glo brig hefyd wedi dinistrio nifer o safleoedd ar y maes glo. Yn fwy diweddar, mae nifer o safleoedd wedi diraddio drwy esgeulustod a diffyg rheoli.

Mae Cymoedd Aman a Gwendraeth, ill dau'n gorwedd ar greigiau a glo ynddynt, yn dal i gadw dwysedd da o borfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd. Mae llawer yn goroesi oherwydd y patrymau daliadau tir neu anawsterau ffisegol rheoli'r tir yn ddwys, a olygai nad oedd modd draenio na gwella'r tir. Mae enghreifftiau pellach wedi'u gwasgaru ar hyd a lled gweddill y sir.

Yn ardal Cross Hands mae Prosiect Mynydd Mawr yn ceisio gweithio gyda thirfeddianwyr lleol i wella'r cynefin hwn ar gyfer britheg y gors (iâr fach yr haf). Mae prosiect ar y gweill i arolygu arwynebedd helaeth o dir i asesu ansawdd y cynefin

yn ardal Cross Hands. Defnyddir y canlyniadau fel sail i ddatblygiadau yn y dyfodol a byddant yn fodd i dargedu safleoedd ar gyfer gwaith rheoli posib.

Mae **glaswelltir asidaidd sych yr iseldir** yn brin ar dir isel Sir Gaerfyrddin, er bod darnau helaeth o laswelltir felly i'w cael ar lwyfandiroedd ucheldir ac ar ymylon Mynydd Du a Mynydd Mallaen. Mae clystyrau o gynefin Beiswellt/Tresgl y moch/Maeswellt cyffredin i'w cael yn achlysurol ar dir is, wedi'u cyfyngu fel arfer i is-haenau prin eu maetholion y mae dŵr yn rhedeg trwyddynt yn rhwydd. Yn gyffredinol mae'r priddoedd ar iseldiroedd Sir Gaerfyrddin yn rhy ffrwythlon i gynnal y cynefin hwn.

Mae mynwentydd a mannau tebyg yn dod yn gynyddol bwysig oherwydd eu glaswelltiroedd ac maent yn gallu bod yn hafan i fioamrywiaeth. Yn wahanol i'r tir fferm o'u cwmpas ychydig o gemegolion, gwrtaith a chwynladdwyr sydd wedi cael eu rhoi ar y safleoedd hyn ac anaml iawn y maent wedi cael eu draenio. Mae llawer o laswelltiroedd o'r fath yn 'lled-naturiol', h.y. maen nhw'n gyfoethog mewn rhywogaethau gyda amrywiaeth mawr o rywogaethau o blanhigion. Am fod planhigion fel y bengaled, pys-y-ceirw, llygad llo mawr ac amrywiaeth o weiriau'n tyfu yno maen nhw'n edrych fel gweirglodd ac, mewn rhai achosion, ceir planhigion prin fel tegeirianau yno. Mae'r glaswelltiroedd blodeuog, amrywiol, hyn yn eu tro yn ffynhonnell dda o fwyd i amrywiaeth o infertebratau fel gwenyn, ieir bach yr haf, pryfed hofran a gwyfynod.

Mae'r cynefinoedd glaswelltir a geir mewn mynwentydd yn rhai o'r cynefinoedd pwysicaf i gymunedau arbenigol ffyngau capiau cwyr. Hyd yma mae dros 200 o'r safleoedd hyn wedi cael eu harolygu yn Sir Gaerfyrddin ac mae dros 80% yn cynnal un rhywogaeth o leiaf o gapiau cwyr. Unedau bach iawn o laswelltir heb ei wella am yn ail â chofebion crefyddol yw'r safleoedd hyn i gyd ac maent yn bwysig iawn o ran y nifer o ffyngau capiau cwyr y gall y mannau hyn eu cynnal. Mae'r safleoedd yn cynnwys Eglwys y Santes Anne, Cwm-ffrwd (14 rhywogaeth o gapiau cwyr), Capel Pisga, Bancffosfelen (12 rhywogaeth), Eglwys yr Efengylwyr, Pen-y-groes (9 rhywogaeth) a'r Capel yn Rhos (12 rhywogaeth).

***Ymylon ffyrdd***

Mae mwy na 6000 o gilomedrau o ymylon ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin. Er bod cynnal a chadw'r priffyrdd mewn cyflwr diogel ar gyfer yr holl ddefnyddwyr ffyrdd yn ddyletswydd statudol ar yr Awdurdodau Priffyrdd, mae pwysigrwydd ymylon ffyrdd o ran cadwraeth natur yn cael ei gydnabod yn gyffredinol. Mae pedair agwedd ar hyn:

- Yn fynych mae ymylon ffyrdd yn weddillion cynefinoedd lled-naturiol sydd yn fwyfwy prin bellach mewn tirweddau amaethyddol.
- Maent yn rhodfeydd i fywyd gwyllt, ac yn cyfrannu at y rhwydwaith cyffredinol o gynefinoedd ledled y sir.
- Maent yn gysgod ac yn ffynhonnell fwyd i fywyd gwyllt.
- Yn fynych maent yn digwydd ar y cyd â chynefinoedd eraill sydd yn bwysig oherwydd eu bioamrywiaeth, megis perthi a ffosydd hynafol a/neu sydd yn gyforiog o rywogaethau.

Mae tipyn o amrywiaeth yn gallu bod o ran llystyfiant ymylon ffyrdd. Mae llawer o ymylon ffyrdd, yn enwedig rhai mewn ardaloedd gwledig, yn gyforiog o rywogaethau

ac yn cynnal casgliad naturiol o blanhigion. Mae'n bosibl, yn achos ymylon ffyrdd sydd yn gysylltiedig â ffyrdd a gafodd eu codi yn fwy diweddar, fod yr ystod o blanhigion wedi ei haddasu, naill ai yn fwriadol drwy gymysgeddau o hadau a thrwy gynlluniau plannu, neu yn ddamweiniol o ganlyniad i newidiadau o ran strwythur a chemeg y pridd. Hefyd mae'r arferion rheoli sydd wedi eu mabwysiadu gan Awdurdodau Priffyrdd yn gallu effeithio ar gyfansoddiad y rhywogaethau, ac mewn llawer o achosion mae hynny wedi bod yn llesol. Ar hyd rhai darnau o ffyrdd erbyn hyn mae planhigion estron ymledol megis Pysen y Saethwr yn drech na phlanhigion eraill, ac, er mwyn atal y rhain rhag ymledu ymhellach, yn fynych mae angen rheolaeth ddwys yn yr ardaloedd hynny lle mae problemau.

Mae ymylon ffyrdd sydd yn gyforiog o rywogaethau yn gallu bod yn nodweddion dymunol o'r dirwedd. Mae llygaid llo mawr yn rhengoedd talsyth ar rai o'r ffyrdd cysylltu, ac mae clystyrau o glychau'r gog, blodau menyn, a thegeiriannau yn britho ein lonydd bach cefn gwlad, a heb unrhyw amheuaeth mae'r rhain oll yn ychwanegu at brydferthwch ac ansawdd cefn gwlad. Mae nodweddion o'r fath yn bwysig i ddelwedd Sir Gaerfyrddin, ac maent yn amlygu bod ymylon ffyrdd sydd wedi eu rheoli mewn modd sensitif, yn gallu cyflawni rôl bwysig o ran denu twristiaid i'r sir.

Mae cynefin **ffridd** wedi'i gynnwys yn y cynllun gweithredu ar gyfer Ucheldiroedd ond gan ei fod yn pontio'r ffin rhwng iseldir ac ucheldir dylai gael ei grybwyll yma hefyd. Mae ffridd yn cyfeirio at lystyfiant ochrau dyffrynnoedd, sydd yn aml heb gael eu trin, y llethrau canol rhwng ffermydd yr ucheldir, planhigfeydd conwydd eang neu dir comin heb ei amgáu a llawr y dyffryn. Mae'r ffridd yn frithwaith cymhleth o weundir, rhedyn, coetir, glaswelltir asidaidd, hen weithfeydd a thir gwlyb. Yn draddodiadol caiff y cynefinoedd hyn eu pori gan ddefaid neu wartheg. Mae glaswelltir a gweundir yr iseldir i'w ganfod yn y parth hwn. Mae newidiadau mewn amaethyddiaeth a'r posibilrwydd o blannu coed yn amhriodol yn fygythiad i'r ardaloedd gwerthfawr hyn.

Mae dwysáu amaethyddol, diffyg rheoli, colledion oherwydd datblygu a cholli gweundir i'w goedwigo i gyd wedi achosi dirywiad yn y cynefinoedd hyn, sy'n rhan o dirwedd amrywiol Sir Gaerfyrddin. Mae'r cynefinoedd hyn i gyd yn cynnal rhywogaethau prin ac anghyffredin sy'n cyfrannu at amrywiaeth cyfoethog o rywogaethau. Mae'r cynefin sy'n weddill yn cyfrannu at goridorau bywyd gwyllt tyngedfennol o fewn tirwedd amaethyddol ehangach sydd wedi'i gwella.

**Manteision naturiol**

Yn ogystal â gwerth cynhenid y cynefinoedd hyn a'r rhywogaethau y maent yn eu cynnal, maen nhw'n darparu nifer o fanteision naturiol i ni:

- Mae glaswelltiroedd yn darparu bwyd i dda byw
- Mae glaswelltiroedd yn storio carbon
- Mae glaswelltiroedd llaith yn gweithredu fel sbwng, yn storio dŵr ac yn arafu dŵr ffo ar ôl glaw
- Mae grug a blodau'r ddôl yn cynnal peillyddion pwysig fel gwenyn – sy'n dyngedfennol i helpu'n diwydiant amaethyddol.
- Bwyd gwyllt – e.e. mêl a llus!
- Diwylliannol – mae ein glaswelltir a'n gweundiroedd yn adlewyrchu'n hanes amaethyddol.

• Ysbrydoliaeth ac iechyd a lles – celf, barddoniaeth, ymlacio.

**Pam mae cynefinoedd glaswelltir a gweundir yr iseldir yn newid** (o adroddiad *State of Nature*: www.rspb.org.uk/stateofnature)?

• Cynefinoedd yn dirywio.
• Colli cynefinoedd.
• Llygredd atmosfferig.
• Rhywogaethau estron goresgynnol.
• Darnio ac ynysu cynefinoedd.
• Dyn yn aflonyddu ar rywogaethau.
• Newid hinsawdd.

**Datganiad o weledigaeth ac amcanion**

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y cynllun hwn yw cynnal, adfer ac ehangu'r cynefinoedd hyn yn y sir a'r rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â nhw. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cysylltu cynefinoedd o fewn tirwedd Sir Gaerfyrddin. Byddai unrhyw weithredu yn ceisio cyflawni un neu fwy o'r amcanion isod:

**LGH1** Rheoli'r cynefinoedd glaswelltir a gweundir hyn yn Sir Gaerfyrddin mewn modd cadarnhaol a'u cysylltu a'u hehangu lle mae hynny'n bosib.

**LGH2** Cynnal ac ehangu'r ystod a/neu'r boblogaeth o rywogaethau sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o gynefin.

**LGH3** Nodi a chofnodi ardaloedd o gynefinoedd glaswelltir a gweundir y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn Sir Gaerfyrddin, y tu allan i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

**LGH4** Codi ymwybyddiaeth o gynefinoedd glaswelltir a gweundir a'r manteision a gawn ni yn eu sgil.

**Rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth/Ad42 cysylltiol (DS efallai nad yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr):**

**Adar -** Ehedydd, Corhedydd y coed, Llinos, Bras melyn, Troellwr bach, Ehedydd y coed, Golfan y mynydd, Gylfinir, Petrisen, Drudwen, Cornchwiglen, Troellwr mawr, y Gog, Cudyll coch, Tylluan wen

**Mamaliaid** - Ysgyfarnog, Rhywogaethau o ystlumod (yn cynnwys yr ystlum lleiaf)

**Infertebratau** – Britheg y gors, Britheg berlog fach, Gwibiwr brith, Gweirlöyn llwyd

**Ymlusgiaid** – Neidr ddefaid, Madfall, Neidr y gwair, Gwiber

**Planhigion/isblanhigion** - *Euphrasia rostkoviana montana*, Cegiden bibellaidd, Tegeirian llydanwyrdd bach, Crafanc-y-frân dridarn, y Gronnell, Ffacbysen chwerw, Pocedfwsogl Portiwgal, *Toninia sedifolia* (cen), *Microglossum olivaceum* (ffwng), Mwsogl minfoel dail atblyg.

**Infertebratau** – Pryf llofrudd, Cardwenynen lwydfrown, Coediwr, Pali tywydd, Clustwyfyn cilgantog, Brychan llwyd y mynydd, Brychan y friwydd (gwyfynod),

Gwalchwyfyn gwenynaidd ymyl gul, Chwimwyfyn rhithiol, Brychan lletraws, Gwregys y gwair, Clai'r rhos, Rhesen y banadl, Clai'r waun (gwyfynod), Gwyfyn y banadl.

**Crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - http://ukbars.defra.gov.uk:**

**2010-12**

• Prosiect Glaswelltiroedd Gwendraeth – adfer glaswelltir corsiog yng nghwm Gwendraeth – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru/Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru/Pori, Natur, a Threftdaeth/Yr Ymddiriedolaeth Glaswelltiroedd LGH1
• Rheoli gweirgloddiau ym Mharc Gwledig Pen-bre – Cyngor Sir Caerfyrddin LGH1
• Rheoli glaswelltiroedd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru – glaswelltiroedd/dolydd corsiog – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru LGH1
• Rheoli glaswelltiroedd corsiog ar warchodfeydd yr Ymddiriedolaeth Natur - Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru LGH1
• Parc Gwledig Llyn Llech Owain – rheoli/adfer gweundir – Cyngor Sir Caerfyrddin LGH1
• Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Mynydd Llangyndeyrn – adfer glaswelltir corsiog, gweundir gwlyb a sych LGH1
• Parc Dinefwr – rheoli gweirgloddiau – pori gyda gwartheg gwyn – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol LGH1
• Trwyn Ragwen – adfer gweundir tir isel – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol LGH1
• Gwarchodfa Caeau Blaen Dyffryn – rheoli dolydd/monitro tegeirianau llydanwyrdd - Plantlife LGH1/2
• Ffyngau capiau cwyr – arolygon o fynwentydd yn Sir Gaerfyrddin – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru LGH2/3
• Sefydlu grŵp ffyngau Sir Gaerfyrddin LGH2/4
• Diwrnod gweundir ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain – Cyngor Sir Caerfyrddin LGH4
• Cynhyrchwyd taflen adnabod blodau gwyllt – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru LGH4
• Arolwg o laswelltir corsiog yn ardal Cross Hands – Cyngor Sir Caerfyrddin/Cyngor Cefn Gwlad Cymru LGH3
• Glaswelltir corsiog wedi'i drawsleoli o ysgol Tŷ Croes i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru – Cyngor Sir Caerfyrddin LGH1

**2013**

• Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr - prosiect adfer glaswelltir corsiog - rheoli safleoedd glaswelltir corsiog yn ardal Cross Hands - swyddog prosiect wedi'i gyflogi LGH1
• Diwrnodau arolygu capiau cwyr gyda Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro a Cheredigion – Eglwys Pen-boyr LGH3/4
• Astudiaeth o egino a geneteg poblogaeth *Succisa pratensis* – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru LGH2
• Diwrnod y Dolydd – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru LGH4

• Cwblhau prosiect glaswelltir yng Nghwm Gwendraeth a gyllidwyd gan WREN – cynefin glaswelltir corsiog 100 hectar wedi'i reoli – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru / PONT / Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru LGH1
• Lladd a byrnu 19 hectar o laswelltir yng Nghors Fferm y Ffrwd – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru / Naturiaethwyr Llanelli LGH1
• Rheoli pori a gwaredu prysgwydd yng Ngwarchodfa Natur Rhos Cefn Bryn – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru LGH1
• Rheoli glaswelltir corsiog yn fecanyddol yn Median Farm i alluogi pori yn y dyfodol – Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwarchod Glöynnod Byw LGH1
• Parc Arfordirol y Mileniwm a Pharc Gwledig Pen-bre – rheoli ardaloedd o laswelltir fel gweirgloddiau - Cyngor Sir Caerfyrddin LGH1

**2014**
• Cwblhawyd y cyfrif a chofnodwyd y lleoliadau (drwy ddefnyddio System Leoli Fyd-eang) ym Mhwll Edrychiad, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel.
• Gwarchod glaswelltiroedd a gwaredu prysgwydd at ddibenion cadwraeth yng Ngwarchodfa Natur Rhos Cefn - YNDGC
• Fforio am Ffyngau ar y Mynydd Du – Cyngor Sir Caerfyrddin / Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
• Lladdwyd y gwair a phorwyd yr adladd ar laswelltiroedd sydd wedi eu lled-wella, a rhoddwyd trefniadau 'monitro cwadrat' ar waith ym Mhwll Edrychiad a Gogledd y Garn yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig Carmel - YNDGC
• Cynhaliwyd cyfarfod i drafod ffurfio grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin. Cynhelir digwyddiad yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn 2015 – CSC
• Gwaredwyd mieri ymledol, ynghyd â phori at ddibenion cadwraeth yn Ne'r Garn yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig Carmel – YNDGC

**2015**
• Sefydlu Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin – cynnal dau gyfarfod, ymweliadau safle, hyfforddiant – CBP LGH1/4
• Sefydlu gwefan Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin LGH4
• Diwrnodau Blodau Gwyllt Cymru a Ffwng Cymru – NBGW LGH4
• Tua 60 Ha o laswelltir corsiog o dan reolaeth fel rhan o Brosiect Brith y Gors, Mynydd Mawr LGH1
• Rheoli glaswelltir corsiog yn fferm Median i ganiatáu pori yn y dyfodol – BC/Gwirf LGH1
• Rheoli dolydd gwair yn NBGW – cynnydd mewn tegeirianau llydanwyrdd a ffwng capiau cwyr LGH1
• Rhos Cefn Bryn – gosod lloc dal gwartheg a chreu mynediad cyffredin rhwng y warchodfa a thir a reolir yn awr gan CSC – WTSWW LGH1
• Gwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel – pob ardal o laswelltir a chors wedi'i rheoli drwy gyfuniad o bori sensitif a thorri ar gyfer silwair – WTSWW LGH1
• Rhestr o gloddiau i'w 'torri'n hwyr' wedi'i llunio – CSC LGH1
• Sesiwn hyfforddiant i swyddogion Gwasanaethau Stryd a chontractwr yr ymylon – CSC LGH4

**Gweithredu arfaethedig ar gyfer y dyfodol**


**Dolenni defnyddiol:**
[www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/grassland](www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/grassland)
[www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/heathland](www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/heathland)
[http://jncc.defra.gov.uk/page-1431](http://jncc.defra.gov.uk/page-1431)
[www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Lowland-Grassland--Heathland](www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Lowland-Grassland--Heathland)

**Ble gallwch chi weld y cynefinoedd hyn yn Sir Gaerfyrddin:**
*Glaswelltiroedd*: Dolydd ar Warchodfa Natur Genedlaethol Coed Carmel, Caeau Blaen Dyffryn (Gwarchodfa Plantlife ger Llanbedr Pont Steffan), Caeau Ffos Fach (Gwarchodfa Butterfly Conservation yn Cross Hands), Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

*Gweundiroedd:* Llyn Llech Owain, Mynydd Llangyndeyrn, Mynyddyrgarreg


**Mapiau wedi'u defnyddio gyda chaniatâd Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2004. Tynnwyd o *Priority Habitats of Wales: a technical guide*, golygyddion P. S. Jones, D. P. Stevens, T. H. Blackstock, C. R. Burrows ac E. A. Howe., 2003.**

Atgynhyrchwyd o'r map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, Cedwir Hawlfraint y Goron -LA0997L





Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefin porfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd ar iseldir yn Sir Gaerfyrddin. Crynhowyd y data o Arolwg Cynefinoedd Tir Isel Cymru yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1987 – 1997) ac mae'n cynnwys glaswelltir corsiog tir isel a hanner y gorchudd o frithwaith glaswelltir/gweundir gwlyb tir isel.

## Glaswelltir asidaidd sych yr iseldir





Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefin glaswelltir asidaidd sych yr iseldir yn Sir Gaerfyrddin. Crynhowyd y data o Arolwg Cynefinoedd Tir Isel yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1987 – 1997) ac mae'n cynnwys glaswelltir asidaidd iseldir heb ei wella ac wedi'i led-wella a hanner y gorchudd o frithwaith glaswelltir/gweundir asidaidd tir isel.

## Gweundir sych yr iseldir





Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefin gweundir sych yr iseldir yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r data'n cynnwys gweundir sych asidaidd a sylfaenol a hanner y gorchudd o frithwaith glaswelltir/gweundir sych ac fe'i crynhowyd o Arolwg Cynefinoedd yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1979 – 1997); arolygwyd y cynefin hwn yn bennaf rhwng 1987 ac 1997.

## Gweundir gwlyb yr iseldir




Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefin gweundir gwlyb yr iseldir yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r data'n cynnwys gweundir gwlyb a hanner y gorchudd o frithwaith glaswelltir/gweundir gwlyb ac fe'i crynhowyd o Arolwg Cynefinoedd yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1979 – 1997); arolygwyd y cynefin hwn yn bennaf rhwng 1987 ac 1997.




Meysydd Gweithredu â Blaenoriaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i laswelltiroedd yn Sir Gaerfyrddin.

Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y sefydliadau canlynol: Cyngor Sir Caerfyrddin, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Clwb Adar Sir Gaerfyrddin, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Gwarchod Glöynnod Byw, Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain, Naturiaethwyr Llanelli, Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod, Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid